Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyflwr yr Ystad

Effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol ystad weinyddol Llywodraeth Cymru 2023-2024














llyw.cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** 3

1.1 Yr Ystad Weinyddol 4

**2. Perfformiad yr Ystad** 5

2.1 Effeithlonrwydd 5

2.2 Maint a Chostau Rhedeg 6

**3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol** 7

3.1 Ynni 7

3.2 Gwastraff 8

3.3 Dŵr 8

3.4 Perfformiad Amgylcheddol 8

3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos 9

**4. Edrych i'r Dyfodol** 10

**Atodiad 1:** 11
Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2024

**Atodiad 2:** 12
Arbedion a gyflawnwyd o eiddo a adawyd 2016-2024

**Atodiad 3:** 14
Crynodeb o Berfformiad 2019-2024

**Atodiad 4:** 16
Crynodeb o Berfformiad Eiddo'r Ystad Arbenigol


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52131, ISBN digidol 978-1-83715-733-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# 1. Cyflwyniad

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ystad swyddfeydd wedi'u gwasgaru ledled Cymru, i gefnogi economi decach a chryfach ac i alluogi staff i weithio'n agosach i'w cartrefi, neu yn eu cartrefi.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i adrodd am y prif feincnodau o ran costau a pherfformiad amgylcheddol.

Mae'r Strategaeth 10 mlynedd Gweithle'r Dyfodol (2020-2030) yn amlinellu fframwaith o egwyddorion lefel uchel i lywio cynlluniau'r dyfodol i gael y gorau o'r alinio strategol, perfformiad o ansawdd a'r defnydd o'r Ystad Weinyddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddarparu llety sy'n addas ar gyfer ffyrdd newydd o weithio'n hyblyg ac yn gydweithredol, a defnyddio ein gofod busnes mewn ffordd wahanol. Mae ein nod o gael 50% o staff Llywodraeth Cymru yn gweithio o bell yn parhau i fod ar waith ac mae'n pennu'r safon ar gyfer cynllunio gofod ar sail pum gweithfan fesul deg aelod staff. Mae hyn yn cael ei ategu gan angen cynyddol am ofod gweithio cydweithredol a symud tuag at 'un ystad gyhoeddus' wedi'i nodweddu gan gydweithio â'n partneriaid sector cyhoeddus i gyd-leoli.

Mae cefnogi canol trefi, trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy a chynaliadwyedd ein hadeiladau'n parhau i fod yn ystyriaethau pwysig wrth lunio ystad y dyfodol. Mae ein heffaith amgylcheddol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau cynaliadwy i leihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, lleihau gwastraff a gwella bioamrywiaeth. Mae bod yn fwy hyblyg er mwyn ymgorffori tueddiadau a pholisïau ar gyfer patrymau gweithio mwy cyfunol yn awgrymu bod angen math gwahanol o ofod swyddfa.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ariannol yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth wneud penderfyniadau.

Wrth ystyried opsiynau i adolygu lleoliad swyddfeydd byddwn yn parhau i gynnwys staff ac Undebau Llafur mewn dadansoddiadau manwl o'r costau a'r manteision.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif ddata perfformiad o ran effeithlonrwydd a'r amgylchedd ac yn eu cymharu â ffigurau cyfatebol y strategaeth flaenorol.

Dyma'r prif ddangosyddion:

| | |
|---|---|
| Maint a chost rhedeg yr ystad | Rhent[1]<br>Ardrethi Busnes<br>Costau Eraill |
| Effeithlonrwydd y gweithle | £ fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (FTE)<br>Metrau sgwâr fesul swydd FTE |
| Perfformiad ynni fel Tystysgrif Ynni i'w Harddangos | |
| Perfformiad amgylcheddol ar gyfer allyriadau $CO_2$; cynhyrchu gwastraff ac ailgylchu, a defnyddio dŵr. | |

Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o effeithlonrwydd y swyddfeydd gweithredol craidd a oedd yn rhan o'r ystad ar 31 Mawrth 2024. Rhestrir y swyddfeydd hyn yn Atodiad 1.

Nid ydym wedi cynnwys eiddo arbenigol yn y ffigurau effeithlonrwydd cost a nodir ym mhrif gorff yr adroddiad. Dangosir manylion yr eiddo arbenigol hwn yn Atodiad 4.

1 Rhoddir rhent tybiannol i swyddfeydd rhydd-ddaliadol. Adolygwyd y rhenti ar 31 Mawrth 2020.

## 1.1 Yr Ystad Weinyddol


Mae'r Ystad yn darparu 68,669 metr sgwâr o ofod gweithio a chyfarfod sy'n fodern ac yn hyblyg ar gyfer 5,736 o staff, tenantiaid a chontractwyr cyfwerth ag amser llawn, ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r 15 swyddfa graidd yn cynnwys prif ganolfannau Parc Cathays Caerdydd, Rhyd-y-Car Merthyr Tudful, Rhodfa Padarn Aberystwyth a Sarn Mynach Cyffordd Llandudno. Mae swyddfeydd ac adeiladau eraill ledled Cymru i sicrhau presenoldeb gwasgaredig ac i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion busnes (Ffigur 1).

Mae data ategol yn Atodiadau'r adroddiad hwn:

- **Atodiad 1:** Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2024.
- **Atodiad 2:** Arbedion a gyflawnwyd o eiddo a adawyd 2016-2024.
- **Atodiad 3:** Crynodeb o Berfformiad 2019-2024.
- **Atodiad 4:** Crynodeb o Berfformiad Eiddo'r Ystad Arbenigol.

## Ffigur 1: Lleoliad Swyddfeydd yr Ystad Weinyddol



# 2. Perfformiad yr Ystad

Parhaodd y rhan fwyaf o'r staff i weithio o bell yn ystod 2023-2024. Y dystiolaeth yw bod cyfran uwch yn gwneud hynny'n rheolaidd.

Mae ffigurau perfformiad yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl staff a chontractwyr yn gweithio o'u sylfaen gytundebol drwy gydol y flwyddyn.

## 2.1 Effeithlonrwydd

Mae Bloc C yn Heol Picton, Caerfyrddin yn dal i fod yn wag. Nid oes mo'i angen mwyach ac mae wrthi'n cael ei farchnata. Mae ansicrwydd ynghylch patrymau gweithio tymor hir wedi bod yn ffactor yn y ffaith bod y gofod swyddfa hwn yn parhau i fod yn wag.

Roedd cyfanswm arwynebedd yr Ystad Weinyddol graidd yn parhau i fod yn 68,669 metr sgwâr, ond mae rhagor o le wedi cael ei osod i bartneriaid yn y sector cyhoeddus eleni.

Mae'r angen am staff gwasgaredig ledled Cymru yn cyfyngu ar gyfleoedd i gau swyddfeydd ymhellach, ond rydym yn ystyried yr opsiynau i sicrhau'r 'maint cywir' drwy ddatblygu achosion busnes, arfarnu buddsoddiadau ac ymgynghori â staff ac Undebau Llafur wrth i gyfleoedd, megis cymalau torri neu ddod â lesoedd i ben, godi. Roedd hyn yn wir am y swyddfa yn Grosvenor Road, Wrecsam, a wnaethom ei gadael ar ôl i'r les ddod i ben ym mis Ionawr 2024, gan adleoli staff i uned fach, sengl – hefyd yn Wrecsam. Wrth i arferion gweithio o bell ennill eu plwyf, rhagwelir y bydd natur yr ystad swyddfeydd yn newid ymhellach ac y bydd mwy o gyfleoedd i sicrhau arbedion drwy fod yn effeithlon yn codi.

Mae cyfleoedd i gydleoli, naill ai drwy is-osod gofod dros ben neu symud gweithrediadau Llywodraeth Cymru i adeiladau cyhoeddus eraill yn parhau i gael eu harchwilio. Cynyddodd diddordeb gan feddianwyr posib yn ein prif hybiau yn ystod 2023-2024.

Cadwyd at y cynllun rhesymoli o bum swydd FTE fesul 1 gweithfan ac 8 m sg fesul gweithfan.

Nodir ffigurau perfformiad allweddol ar gyfer yr ystad gyfan isod. Mae dadansoddiad fesul adeilad yn Atodiad A.

## 2.2 Maint a Chostau Rhedeg

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | Newid 31 Mawrth 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad | 69,850 | 68,669 | 68,669 | 68,669 | 0% |
| Nifer yr Eiddo | 15 | 15 | 15 | 15 | 0% |
| Cost Ystad (miliynau) | £18.413 | £18.80 | £18.95 | £24.50 | 29% |

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | Newid 31 Mawrth 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithlonrwydd** | | | | | |
| Cost fesul FTE | 3,337 | 3,329 | 3,304 | 4,272 | 29% |
| Cost fesul metr sgwâr | 263.31 | 273.90 | 275.98 | 358.06 | 30% |
| Metr sgwâr fesul FTE | 12.6 | 12.2 | 12 | 11 | -8% |

# 3. Effeithlonrwydd Amgylcheddol

Mae'r newid i batrymau gwaith yn sgil y pandemig yn parhau i gael effaith ar y defnydd o gyfleustodau a'r gwastraff a gynhyrchir cyn COVID, yn cynnwys yr hyn sydd ar gael ar gyfer ailgylchu. Mae maint y gwastraff i ynni wedi cynyddu, ac mae maint y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi lleihau. Cynhyrchwyd llai o garbon a defnyddiwyd llai o nwy ar draws yr ystad. Hefyd, mae trydan adnewyddadwy a gynhyrchir o baneli ffotofoltäig solar ym Mharc Cathays bellach yn cael ei fonitro, sydd wedi helpu i leihau cyfanswm y trydan wedi'i ddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei estyn i weddill yr ystad y flwyddyn nesaf.

## 3.1 Ynni

- Gostyngiad yng nghanran gros yr allyriadau $tCO_2e$ o **21%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol[2].
- Gostyngiad o **27%** yn y trydan wedi'i ddefnyddio o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Gostyngiad o **21%** yn y nwy wedi'i ddefnyddio o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Cafodd **92,000 kWh** o drydan adnewyddadwy ei greu o paneli ffotofoltäig solar ym Mharc Cathays.
- Mae mesurau arbed ynni, a roddwyd ar waith ym mis Tachwedd 2022, yn parhau i sicrhau arbedion ynni, gyda **505** Mwh wedi'i arbed rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024, o'i gymharu â'r un cyfnod cyn i fesurau gael eu cyflwyno.
- Er bod costau ynni wedi cynyddu tua 151% o'u cymharu â'r llynedd, cafodd costau gwerth **£139k** eu gwrthbwyso o'u cymharu â'r un cyfnod cyn cyflwyno'r mesurau.

Roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn canllawiau'r diwydiant ar weithredu ei systemau adeiladu'n ddiogel, a oedd yn cynnwys system awyru awyr iach llawn a dim ailgylchu aer llonydd, tan fis Chwefror 2024 pan aeth yn ôl i ailgylchu aer llonydd. Disgwylir i hyn sicrhau arbedion ynni pellach.

2 Yn 2023-2024 cawsom ganiatâd i ddidynnu'r ganran honno o gyfanswm ein defnydd o gyfleustodau ac allyriadau carbon o ynni a ddefnyddir gan ein tenantiaid, gan fod rhaid iddynt gofnodi eu cyfansymiau eu hunain ar wahân. Mae cyfanswm yr allyriadau hyn yn cynrychioli allyriadau trydan nwy Cwmpas 1 ynghyd â Chwmpas 2

## 3.2 Gwastraff

- Cynyddodd gwastraff 190% o 74 tunnell yn 2022-2023 i 215 tunnell yn 2023-2024. Roedd hyn oherwydd rhesymoli gofod swyddfa ar draws yr ystad, ond yn enwedig ym Mharc Cathays, lle roedd staff yn gwaredu eitemau diangen. Roedd yr ymarfer hwn yn caniatáu i le gael ei neilltuo i denantiaid sector cyhoeddus, i rannu gofod swyddfa.
- Gostyngodd gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi 20% o 0.5% y flwyddyn flaenorol i 0.4% o'r cyfanswm yn 2023-2024.
- Cafodd 86% o gyfanswm y gwastraff ei ailgylchu. Mae hyn yn gynnydd o'r flwyddyn flaenorol, pan gafodd 81% ei ailgylchu.

## 3.3 Dŵr

Roedd gostyngiad yn y dŵr wedi'i ddefnyddio i 2.1 $m^3$ y pen.

## 3.4 Perfformiad Amgylcheddol


Dangosir manylion yr allyriadau nwyon tŷ gwydr, faint o wastraff a gynhyrchwyd ac o ddŵr a ddefnyddiwyd yn yr Ystad Weinyddol isod:

| Perfformiad Amgylcheddol | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | Newid 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$e) | 5376 | 4236 | 3713 | 3,500 | 3,000 | 2,890 | 2,275 | -21% |
| Trydan (t $CO_2$e) | 4259 | 3193 | 2647 | 1,896 | 1,500 | 1,542 | 1,210 | -22% |
| Nwy (t $CO_2$e) | 1117 | 1043 | 1066 | 1,604 | 1,400 | 1,348 | 1,065 | -21% |
| Cyfanswm gwastraff (Tunelli) | 350 | 372 | 284 | 50 | 72 | 74 | 215 | 190% |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 12 | 1 | 1 | 2 | 2 | 0.5 | 0.4 | -20% |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 88 | 88 | 82 | 69 | 66 | 81 | 86 | 6% |
| Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm) | - | 11 | 17 | 29 | 14 | 17.5 | 13.6 | -22% |
| Dŵr (metrau ciwbig/ person/y flwyddyn) | 6.3 | 6.2 | 5.6 | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 | -28% |

## 3.5 Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (DEC) – yr 8 prif safle

Mae'r mesur cyfartalog o fewn Band C, gyda chyfartaledd o 71.

**Perfformiad DEC y Safle 2023-2024**




### Perfformiad Amgylcheddol

Mae cyfartaledd perfformiad yr ystad wedi cynyddu 7.5% ers yr adroddiad blaenorol. Roedd hyn oherwydd bod mesurau COVID yn dal i fod ar waith. Hynny yw, roedd system awyru awyr iach lawn yn hytrach na system awyru sy'n ailddefnyddio aer yn golygu bod mwy o ynni yn cael ei ddefnyddio.

Mae mesurau i optimeiddio perfformiad ynni wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny.

# 4. Edrych tua'r Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn ar Gyflwr yr Ystad 2023-2024 yn edrych yn ôl ar y flwyddyn pan nad oedd ein swyddfeydd yn llawn o hyd wrth i staff barhau i weithio o bell. Mae hyn yn cael ei ddatrys drwy gynyddu nifer y lleoedd sydd bellach wedi cael eu dyrannu i denantiaid yn y sector cyhoeddus. Mae mwy o'n gofod yn cael ei ddefnyddio fel canolfannau'r sector cyhoeddus wrth i staff Llywodraeth Cymru fabwysiadu model hybrid o weithio.

Arweiniodd cynnydd yn nifer y staff a ddaeth i'r swyddfa at gynnydd yn y ffigurau ar gyfer rhai meysydd perfformiad amgylcheddol, ond mae dangosyddion allweddol cyffredinol, fel allyriadau carbon, wedi gwella dros y flwyddyn. Mae'r cynnydd mewn gofod tenantiaid yn caniatáu inni ddidynnu canrannau ar gyfer yr ardaloedd hynny o ran yr allyriadau rydym yn eu cynnwys yn ein hadroddiadau. Gostyngodd canran y gwastraff wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi, yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gwastraff wedi'i anfon ar gyfer cynhyrchu pŵer ac er gwaethaf cynnydd enfawr yn y gwastraff cyffredinol wedi'i gynhyrchu.

Mae llawer o swyddfeydd dal heb gael eu defnyddio ddigon ar draws yr ystad gyhoeddus o ganlyniad i weithio hybrid a gweithio gartref ers y pandemig. Er bod effeithlonrwydd Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru wedi gwella'n sylweddol ers 2015, yr her yn y blynyddoedd nesaf fydd sicrhau'r defnydd gorau posibl o swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer staff a thenantiaid.

O ystyried yr ymrwymiad i ystad wasgaredig, bydd cyfleoedd i wella effeithlonrwydd yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar wneud mwy o ddefnydd o'r adeiladau hynny rydym wedi'u cadw drwy eu gosod i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.

# Atodiad 1: Data allweddol 15 swyddfa graidd yr Ystad Weinyddol ar 31 Mawrth 2024

| Cyfeiriad | Cyfanswm perchnogaeth Llywodraeth Cymru NIA | Metr sgwâr NIA | Staff Snowdrop 2024 (gan gynnwys contractwyr sy'n defnyddio gofod Llywodraeth Cymru) | Snowdrop metr sgwâr fesul aelod o staff | Cymhareb Ddesg | Deiliadaeth | Rhent ac Ardrethi Blynyddol O/G | Ardrethi a Dalwyd 2024 | Rhent gan gynnwys TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CP1 a CP2 Parc Cathays, Caerdydd | 37,696 | 37,696 | 3,139.6 | 12 | 0.89 | ○ | £7,313,720 | £1,299,836 | £3,430,000 |
| Rhan Dau/Rhan 5, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd | 1792 | 1,792 | 146.7 | 12 | 1.19 | ■ | £2,707 | £0 | £0 |
| Tŷ'r Afon, Ffordd Bedwas, Bedwas, Caerffili | 2,907 | 2,486 | 204.9 | 12 | 1.01 | ■ | £525,765 | £117,739 | £438,000 |
| Rhyd-y-Car, Merthyr Tudful | 6,097 | 6,097 | 593.3 | 10 | 0.98 | ○ | £1,699,247 | £221,480 | £825,000 |
| Adeilad y Goron, Heol Picton, Caerfyrddin | 3,791 | 2,920 | 283.9 | 10 | 0.55 | ○ | £380,519 | £136,693 | £202,100 |
| Havenshead BP, Aberdaugleddau | | 155 | 24.8 | 6 | 0.73 | ■ | £62,404 | £6,955 | £17,100 |
| Llys-y-Ddraig, Parc Busnes Penlle'r-gaer, Abertawe | 1,792 | 1,792 | 301.8 | 6 | 0.66 | ○ | £513,631 | £46,277 | £148,180 |
| Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UR | 6,262 | 5,764 | 288.5 | 20 | 1.07 | ○ | £1,536,595 | £283,550 | £544,325 |
| Neuadd y Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod | | 886 | 108.8 | 8 | 0.64 | ■ | £175,918.00 | £20,638 | £57,500 |
| Tŷ Ladywell, Y Drenewydd | | 1,166 | 72.5 | 16 | 0.80 | ■ | £233,543 | £37,300 | £150,237 |
| Timekeepers Office, Caergybi | | 55 | 6.0 | 9 | 1.33 | ■ | £30,110 | £3,637 | £10,962 |
| Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno | 7105 | 6129 | 412.5 | 15 | 1.04 | ○ | £1,654,513 | £376,571 | £541,497 |
| 1 Grosvenor Lodge, Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DB | | 318 | 20.2 | 16 | 1.04 | ■ | £71,900 | £14,127 | £40,800 |
| Ystafelloedd 5, 7 ac 8 Bloc A, Doc Fictoria, Caernarfon | | 738 | 91.3 | 8 | 0.83 | ■ | £143,245 | -£7,445 | £76,200 |
| Llawr gwaelod, Uned 2, Oak House, Parc Busnes Celtic Springs, Casnewydd | | 448 | 41.5 | 11 | 0.82 | ■ | £45,478 | £26,658 | £66,000 |

○ Freehold ■ Leasehold

# Atodiad 2: Arbedion a gyflawnwyd o eiddo a adawyd 2016-2024

| | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2016-17 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2017-18 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2018-19 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2019-20 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2023-24 | Cyfanswm 8 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tŷ Wynchway, Hwlffordd | 01/02/2016 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | £131,168 | **£1,049,344** |
| Ffordd Arran, Dolgellau | 31/03/2016 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | £7,073 | **£56,584** |
| Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth | 31/03/2016 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | £29,094 | **£232,752** |
| Tŷ Aberhonddu, Caerffili | 31/05/2017 | - | £106,280 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | £127,606 | **£871,916** |
| Tŷ'r Llyn, Abertawe | 23/06/2017 | - | £371,811 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | £481,245 | **£3,259,281** |
| Yr Hen Ficerdy, Caergybi | 12/01/2018 | - | £7,110 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | £33,271 | £33,721 | **£208,536** |
| Hill House, Heol Picton Caerfyrddin | 01/04/2018 | - | - | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | £139,078 | **£834,468** |
| Parc Bocam, Pen-y-bont ar Ogwr | 22/06/2018 | - | - | £92,863 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | £119,770 | **£691,713** |
| Adeiladau'r Goron, Gogledd Penrallt, Caernarfon | 27/07/2018 | - | - | £242,337 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | £356,666 | **£2,025,667** |
| Tŷ Clarence, Casnewydd | 30/05/2019 | - | - | - | £79,381 | £94,999 | £94,999 | £94,999 | £94,999 | **£459,377** |
| Tŷ Southgate, Caerdydd | 19/09/2019 | - | - | - | £87,042 | £163,766 | £163,766 | £163,766 | £163,766 | **£742,106** |

| | Dyddiad gadael | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2016-17 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2017-18 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2018-19 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2019-20 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2020-21 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2021-22 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2022-23 | Amcangyfrif o Gyfanswm yr Arbedion 2023-24 | Cyfanswm 8 mlynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 Heol Casnewydd, Caerdydd | 31/03/2020 | - | - | - | - | £4,340 | £4,340 | £4,340 | £4,340 | **£17,360** |
| Plas Carew | 12/02/2021 | - | - | - | - | £72,318 | £72,318 | £561,619 | £561,619 | **£1,757,175** |
| Uned 22 I.E Llandochau, Heol Penarth, Caerdydd | 23/03/2021 | - | - | - | - | £2,588 | £118,089 | £118,089 | £118,089 | **£356,855** |
| Adeiladau'r Goron, Spa Road East, Llandrindod | 31/07/2021 | - | - | - | - | - | £344,938 | £518,116.75 | £518,116.75 | **£1,381,171** |
| Canolfan QED, Trefforest | 30/09/2022 | - | - | - | - | - | - | £328,098 | £328,098 | **£656,196** |
| 1 Grosvenor Lodge, Ffordd Grosvenor, Wrecsam, LL11 1DB | 26/01/2024 | - | - | - | - | - | - | - | £40,015.00 | **£40,015** |
| **Cyfanswm Arbedion** | | **£167,335** | **£652,536** | **£1,283,735** | **£1,591,394** | **£1,763,432** | **£2,713,172** | **£3,214,449** | **£3,254,464** | **£14,640,517** |

Ni chafwyd gwared ar unrhyw eiddo yn ystod 2016-17. Fodd bynnag, cafwyd arbedion cyson o £167,335 ar gyfer eiddo a adawyd yn 2015-16.
Noder. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa loeren newydd mewn adeilad ar les yng Nghaergybi.
Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Noc Fictoria, Caernarfon.
Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Oak House, Celtic Springs, Casnewydd.
Noder Mae Llywodraeth Cymru wedi cael swyddfa newydd ar les yn Neuadd y Sir Powys, Llandrindod.

# Atodiad 3: Crynodeb o Berfformiad 2019-2024

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | Newid (2023-24) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Ystad** | | | | | | | |
| Cyfanswm Arwynebedd yr Ystad metr sgwâr | 76,836 | 76,181 | 69,850 | 68,669 | 68,669 | 68,669 | 0.00% |
| Nifer yr eiddo | 18 | 17 | 15 | 15 | 15 | 15 | 0.00% |
| Cost yr Ystad £ | £17.920m | £20.420m | £18.413m | £18.808m | £18.951m | £24.506m | 29.00% |
| Rhent £ | £5.328m | £7.360m | £6.507m | £6.452m | £6.481m | £6.574m | 1.40% |
| Cyfraddau £ | £2.863m | £2.877m | £2.573m | £2.561m | £2.561m | £2.584m | 0.90% |
| Arall £ | £9.729m | £10.183m | £9.333m | £9.796m | £9.910m | £14.389m | 45.00% |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | |
| Cost fesul FTE | £3,428 | £3,778 | £3,337 | £3,329 | £3,304 | £4,272 | 29.00% |
| Effeithlonrwydd Cost – £ fesul metr sgwâr | £233.22 | £268.04 | £263.61 | £273.90 | £275.98 | £358.06 | 30.00% |
| Rhent £ fesul metr sgwâr | £69.34 | £96.60 | £93.15 | £93.96 | £94.38 | £107.96 | 14.00% |
| Ardrethi £ fesul metr sgwâr | £37.26 | £37.76 | £36.84 | £37.29 | £37.29 | £37.44 | 0.40% |
| Arall £ fesul metr sgwâr | £126.62 | £133.68 | £133.62 | £142.65 | £144.32 | £233.99 | 62.00% |
| Effeithlonrwydd gofod (metr sgwâr) fesul FTE | 14.7 | 14.1 | 12.6 | 12.2 | 12.0 | 11.0 | -8% |
| Metr sgwâr fesul gweithfan | 12.91 | 12.85 | 13.35 | 12.54 | 12.75 | 12.66 | -0.70% |
| Gweithfannau fesul FTE | 1.14 | 1.10 | 0.95 | 0.97 | 0.94 | 0.91 | 3.20% |

| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2024 | Newid (2023-24) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Perfformiad Amgylcheddol** | | | | | | | |
| Cyfanswm Allyriadau (t $CO_2$) | 4236 | 3713 | 3,500 | 3,000 | 2,890 | 2,275 | -21% |
| Trydan (t $CO_2$) | 3193 | 2647 | 1,896 | 1,500 | 1,542 | 1,210 | -22% |
| Nwy (t $CO_2$) | 1043 | 1066 | 1,604 | 1,400 | 1,348 | 1,065 | -21% |
| Cyfanswm gwastraff (Tunelli) | 372 | 284 | 50 | 72 | 74 | 215 | +190% |
| Tirlenwi (% o'r cyfanswm) | 1 | 1 | 2 | 2 | 0.5 | 0.4 | -20% |
| Ailgylchu (% o'r cyfanswm) | 88 | 82 | 69 | 66 | 81 | 86 | +6% |
| Gwastraff i Ynni (% o'r cyfanswm) | 11 | 17 | 29 | 14 | 17.5 | 13.6 | -22% |
| Dŵr (metrau ciwbig/person/ y flwyddyn) | 6.2 | 5.6 | 2.1 | 2.5 | 2.9 | 2.1 | -28% |

# Atodiad 4: Crynodeb o Berfformiad Eiddo Arbenigol yr Ystad

| Cyfeiriad | Rheswm dros eithrio | Arwynebedd Llawr | Cyfanswm Costau Blynyddol 2017-2018 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2018-2019 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2019-2020 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2020-2021 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2021-2022 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2022-2023 | Cyfanswm Costau Blynyddol 2023-2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 Victoria Street, Llundain | Swyddfa y tu allan i Gymru | 304 | £479,844 | £435,749 | £358,403 | £371,782 | £445,258 | £435,543 | £318,455 |
| Cyfleuster Arbenigol, Cil-y-coed | Defnydd Arbenigol | Amh | £768,651 | £544,002 | £597,208 | £669,404 | £602,578 | £718,280 | £738,840 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Coryton, Caerdydd | Defnydd Arbenigol (traffig) | 763 | £236,951 | £298,460 | £174,748 | £176,786 | £197,856 | £170,668 | £289,956 |
| Canolfan Rheoli Traffig, Morfa BP, Ffordd Sam Pari, Morfa | Defnydd Arbenigol (traffig) | 1,128 | £190,144 | £179,382 | £127,542 | £133,418 | £174,659 | £198,233 | £268,687 |
| Plt 233, Pafiliwn Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt | Defnydd Arbenigol (Pafiliwn) | 220 | £74,932 | £69,050 | £47,438 | £45,446 | £45,808 | £69,847 | £70,656 |
| Adeiladau Arbenigol Materion Gwledig, Sir Gaerfyrddin | Defnydd Arbenigol | 452 | £34,123 | £36,957 | £36,104 | £35,091 | £35,998 | £37,807 | £38,069 |